❖ Myfyrdod 'Daeth Llywydd Nef a Llawr'

Daeth Llywydd nef a llawr
I wisgo dynol gnawd;
Wel, henffych, Arglwydd mawr,
A henffych, dirion Frawd;
Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael
A welwyd yn y preseb gwael.

Nid Edward Jones, Maes-y-plwm, yw emynydd mwyaf Dyffryn Clwyd ond Thomas Jones o Ddinbych, un o'r meddylwyr Cristnogol mwyaf a gafodd Cymru. Yn yr emyn hwn o dri phennill, nid rhyw dri phwynt pregethwrol a gawn, ond mae'r meddwl yn ffrydio y tu mewn i'r penillion yn ogystal ag o un pennill i'r llall.

Mae'r emyn yn dechrau gyda berf, a honno'n ferf yn yr amser gorffennol: 'daeth'. A dyna ni'n syth yn iaith yr efengyl. Mae berf yn yr amser gorffennol yn dweud am rywbeth sydd wedi'i wneud, wedi gorffen cael ei wneud a chaiff o byth ei ail-wneud. Ar hyn y mae Cristnogaeth yn sefyll. Mae hi'n ffydd hanesyddol, a dyma'r Person mwyaf arwyddocaol a ddaeth i'r byd erioed. Fe rwygodd y canrifoedd, a bellach, ar draws rhan helaeth o'r byd, rydym yn mesur y blynyddoedd a'r canrifoedd oddi wrth ei ddyfodiad ef yma. Dyna'r peth cyntaf sydd yn ein papur newydd ni bob dydd, ar ben y tudalen cyntaf, a dyna'r newydd mwyaf sydd ynddo, sef y dyddiad – yn dweud faint sydd er pan ddaeth ef i'r byd.